

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

28 Medi 2016

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Mr A Archer, Mr D Ellis, Cynghorydd ML Evans, Cynghorydd P Harries,
Cynghorydd S Hudson, Mrs G Hayward, Cynghorydd L Jenkins,
Cynghorydd R Kilmister, Cynghorydd RM Lewis, Cynghorydd PJ Morgan,
Cynghorydd R Owens, Cynghorydd D Rees, Mr AE Sangster,
Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

[Cyrhaeddodd Mrs M Thomas adeg ystyried Adroddiad rhif 51/16 Canllawiau Cynllunio Atodol - Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth.]

(Neuadd y Coroniad, Dale: 10.00am – 12.15pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth Ms C Gwyther.

2. Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorydd P Harries bod ganddo fuddiant yn Adroddiad rhif 52/16 Darparu Gwybodaeth i Dwristiaid (Trefdraeth a Dinbych-y-pysgod) a gadawodd y cyfarfod adeg ystyried yr adroddiad.

Datganodd y Cynghorydd R Lewis bod ganddo fuddiant yn Adroddiad rhif 50/16 Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio, ac yn eitem 8 ar yr agenda Cymorth i Ironman Cymru, a gadawodd y cyfarfod adeg ystyried y ddwy eitem.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10^{fed} o Awst 2016 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10^{fed} o Awst 2016.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

(a) Archwiliad o Sgiliau'r Aelodau (Cofnod 14)

Dywedodd y Prif Weithredwr bod naw Aelod wedi ymateb hyd yn hyn ond bod amser yn dal ar ôl i ddychwelyd yr holiaduron. Roedd Llywodraeth Cymru yn debygol o gychwyn ar y broses recriwtio yn ystod yr wythnosau nesaf, ond y gobaith oedd y byddai rhagor o ymatebion yn dod i law cyn rhannu canlyniadau'r Archwiliad gyda'r Llywodraeth.



5. Adroddiadau o amrywiol gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd sawl un o Bwyllgorau'r Awdurdod gerbron yr Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2016.
- (ii) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2016

6. Adroddiad Monitro Blynyddol ar Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2016

Roedd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu i ba raddau yr oedd strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn cael eu cyflawni, gan edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd yr adroddiad yn mesur gwahanol ddangosyddion i asesu perfformiad y polisïau cynllunio unigol a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, ac yn rhoi portread cyffredinol o'r amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Parc. Roedd y canfyddiadau allweddol yn cael eu nodi ar ddechrau'r ddogfen, ac roedd hyn yn nodi lle roedd materion wedi codi a pha gamau pellach oedd angen eu cymryd. Roedd y materion hyn wedi'u trafod gyda'r Aelodau mewn Gweithdai, a byddent yn parhau i dderbyn sylw fel rhan o adolygu'r CDLI.

Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Byddai'r ddogfen hefyd yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori, a byddai unrhyw faterion a godir yn cael eu bwydo i'r adroddiad monitro nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth Cyfarwyddyd y Parc a'i thîm am yr holl waith caled a wnaed i lunio'r Adroddiad. Ychwanegodd Aelod arall nad oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw beth annisgwyl gan fod trafodaethau wedi digwydd ar y meysydd hynny oedd yn peri pryder; serch hynny, roedd y mwyafrif o'r dangosyddion yn gadarnhaol.

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â meincnodi ar draws yr Awdurdodau, a dywedodd y swyddog bod materion tebyg yn codi gyda chynlluniau eraill, a thynnodd sylw'r Aelodau at ddogfen arall ar berfformiad oedd ar y gweill ar gyfer Llywodraeth Cymru oedd yn cynnwys cymhariaeth ar ffurf tabl o'r Awdurdodau. Cytunodd i ddosbarthu'r ddogfen hon i'r Aelodau er gwybodaeth pan fydd ar gael, ynghyd â chysylltiadau ar y we i Adroddiadau Monitro Blynyddol yr Awdurdodau cyfagos a'r Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn yr 31^{ain} o Hydref 2016.



[Datganodd y Cynghorydd RM Lewis fuddiant yn yr eitem ganlynol a gadawodd y cyfarfod adeg ystyried yr eitem.]

7. Cynllun Datblygu Lleol: Canllawiau Cynllunio Atodol - Rhwymedigaethau Cynllunio

Roedd yr adroddiad yn cydnabod y gallai datblygiad newydd gynnig manteision sylweddol i'r gymuned, yn rhinwedd y cartrefi, y gweithleoedd a'r cyfleusterau a ddeuai yn sgîl y datblygiad. Roedd datblygiad newydd yn ysgogi'r economi, ond hefyd roedd datblygiad newydd yn cael effaith ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Roedd Cyngor Sir Penfro (CSP) a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) wedi sicrhau cyfraniadau gan ddatblygwyr drwy rwymedigaethau cyfreithiol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a seilwaith lleol yn gallu ymdopi â'r gofynion ychwanegol sy'n codi yn sgîl datblygiad newydd.

Fis Ebrill 2016 cytunodd yr Awdurdod i gyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol newydd drafft ar Ymrwymadau Cynllunio ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ar y cyd â Chyngor Sir Penfro, ac roedd hyn yn nodi'r dull o sicrhau'r gwelliannau i seilwaith, cyfleusterau, gwasanaethau ac amwynderau lleol oedd yn ofynnol o ganlyniad i ddatblygiad newydd drwy ddefnyddio Rhwymedigaethau Cynllunio Adran 106.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rhwymedigaethau Cynllunio rhwng 11 Mai a 6 Gorffennaf 2016, ac roedd dogfennau oedd yn crynhoi'r canlyniadau ac yn nodi'r newidiadau a argymhellir i'r Canllawiau ynghlwm wrth yr adroddiad. Hefyd roedd y prif newidiadau wedi'u nodi yn yr adroddiad, a nod y newidiadau hyn oedd egluro'r ddogfen yn well a hefyd sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol oedd yn gosod cyfyngiadau ar y modd y gallai Awdurdodau Cynllunio Lleol ddefnyddio Rhwymedigaethau Cynllunio. Roedd yr Aelodau wedi cod nifer o faterion cyn cyhoeddi'r canllawiau ar gyfer ymgynghori, ac roedd yr adroddiad hefyd wedi talu sylw i'r materion hynny.

Dywedwyd yn y cyfarfod fod y Canllawiau wedi'u cymeradwyo gan Gabinet CSP ar y 12^{fed} o Fedi 2016.

Roedd un Aelod yn falch o weld bod paragraff 1.14 y Canllawiau yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol yn y rhestr o'r mathau o seilwaith y gellid gofyn am gyfraniadau ar eu cyfer. Dywedodd y Swyddog bod gwall teipio yn yr ymateb i'r ymgynghoriad a restrir yn 6 ar dudalen 65 ar hyn.

PENDERFYNWYD:

a) cytuno ag ymateb y Swyddog i'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1, cyn belled â bod y gwall teipio yn cael ei gywiro.



b) mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

8. Cynllun Datblygu Lleol: Canllawiau Cynllunio Atodol – Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth

Atgoffwyd yr Aelodau bod Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth (RIGS) yn ddynodiad geoamrywiaeth anstatudol. Roedd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn gymorth i glustnodi a oedd datblygiad yn cael effaith niweidiol ar brif nodweddion budd mewn safle RIGS ac roedd yn atodol i Bolisi 10 'Safleoedd Lleol Cadwraeth Natur neu Fudd Daearegol'.

Yn ei gyfarfod fis Ebrill, roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo gwelliant oedd yn ychwanegu safle ychwanegol i'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Yn y cyfarfod hwnnw holodd un Aelod a fyddai'r dynodiad yn achosi anawsterau wrth i ymchwil gael ei wneud ar y safle, ac roedd yr adroddiad yn nodi bod hyn wedi'i wirio ac nad oedd unrhyw faterion yn codi. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 11 Mai a 6 Gorffennaf 2016 ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau anffafriol.

Yn y cyfarfod, cwestiynodd yr Aelodau y llinell goch oedd yn amlinellu'r safle gan ei fod yn ymddangos bod y llinell yn torri drwy'r nodwedd. Hefyd roeddent yn cwestiynu peth o'r geiriad yn nhestun yr Adendwm i'r Datganiad o Fudd. Eglurodd y swyddog mai'r Grŵp RIGS oedd wedi cynhyrchu'r map a'r Datganiad, ac nad oedd hawl gan yr Awdurdod ei newid, dim ond atgynhyrchu'r dynodiad fel y'i disgrifir er mwyn ei ddiogelu. Cytunodd, fodd bynnag, i egluro'r ddau bwynt.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Atodiad A i'r adroddiad i'w gynnwys fel diweddariad i'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth a fabwysiadwyd yn wreiddiol fis Hydref 2011.

[Datganodd y Cynghorydd P Harries fuddiant yn yr eitem ganlynol a gadawodd y cyfarfod adeg ystyried yr eitem.]

9. Darparu Gwybodaeth i Ymwelwyr (Trefdraeth a Dinbych-y-pysgod)

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyflawni a Darganfod bod yr Awdurdod wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen fis Mai 2015 i ymchwilio i newidiadau posibl i'r modd y darperir gwybodaeth i ymwelwyr, gan gynnwys rolau Canolfannau Croeso a Chanolfannau Ymwelwyr yn y dyfodol. Ar ôl ymweld â'r canolfannau, ystyried y sefyllfa ariannol a phatrymau nifer yr ymwelwyr, a derbyn cyflwyniadau gan dimau eraill oedd yn cyflwyno gwybodaeth, roedd y Grŵp o'r farn bod angen ymagwedd newydd yn awr at ddarparu gwasanaethau i ymwelwyr gan yr Awdurdod er mwyn ymateb i'r heriau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol sy'n wynebu'r diwydiant twristiaeth lleol yn ogystal ag anghenion trigolion Sir Benfro.



Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r gwaith a wnaed i adolygu'r canolfannau ymwelwyr dros y blynyddoedd diwethaf hyn, ac roedd y grŵp wedi ystyried rhai o'r newidiadau oedd wedi digwydd ym maes technoleg a'r diwydiant twristiaeth. Eu barn oedd bod angen i'r Awdurdod ganolbwyntio ar feysydd gwaith lle roedd yn ychwanegu'r gwerth mwyaf drwy ei arbenigedd mewn cadwraeth a dehongli. O ganlyniad, ystyriwyd bod y tair canolfan mwy o faint, sef Oriel y Parc, Castell Caeriw a Chastell Henllys, yn safleoedd lle'r oedd y wybodaeth oedd ar 'gynnig' i'r ymwelwyr yn llawer gwell oherwydd cyfranogiad uniongyrchol yr Awdurdod. Fodd bynnag, cafwyd consensws gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y gallai darparu gwybodaeth fwy cyffredinol i ymwelwyr, a wneir ar hyn o bryd yng Nghanolfannau Ymwelwyr Dinbych-y-pysgod a Threfdraeth, gael ei wneud mewn ffyrdd gwahanol heb fod angen i'r Awdurdod gymryd rôl arweiniol uniongyrchol.

Aeth yr adroddiad rhagddo i amlinellu modelau a rhaglenni newydd y gallai'r Awdurdod eu cyflawni yn y blynyddoedd nesaf er mwyn darparu gwasanaeth fyddai'n addas i'r diben ar gyfer yr heriau fyddai'r Awdurdod yn eu hwynebu yn y dyfodol, ac yn gyfle i ddarparu ei wasanaethau gwybodaeth mewn ffordd wahanol.

Roedd y Gweithgor Darparu Gwybodaeth i Ymwelwyr felly yn argymhell bod yr Awdurdod yn ymrwmo i gyfnod o ymgynghori â busnesau a sefydliadau cymunedol yn Ninbych-y-pysgod ac yn Nhrefdraeth i weld a allai ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr yn y ddau leoliad pwysig hyn mewn partneriaeth ag eraill heb yr angen am i'r Awdurdod reoli adeiladau'r canolfannau ymwelwyr. Yn y pen draw byddai'r Awdurdod yn dymuno rhoi trefniadau partneriaeth ar waith fyddai'n sicrhau bod Trefdraeth a Dinbych-y-pysgod yn parhau i dderbyn gwasanaethau gwybodaeth lleol i ymwelwyr fel y gallai cyfran o'r gwariant presennol ar safleoedd yr Awdurdod gael ei ail-ddyrannu er mwyn cynnal y pecyn o fentrau newydd oedd â'r nod o ddarparu gwasanaeth modern a mwy teg ar draws y Parc Cenedlaethol. Rhagwelwyd y byddai canlyniadau'r ymgynghori yn cael eu cyflwyno gerbron yr Aelodau yn eu cyfarfod fis Tachwedd 2016, gydag unrhyw newidiadau i'w gweithredu cyn tymor yr haf 2017.

Mynegodd nifer o Aelodau eu tristwch am y posibilrwydd o gollu canolfannau yn Ninbych-y-pysgod a Threfdraeth ond gallent ddeall pam fod Aelodau'r Grŵp wedi dod i'r casgliadau a wnaethant, gan nad oedd y Canolfannau yn darparu'r hyn yr oedd ymwelwyr heddiw ei angen o ganlyniad i wybodaeth ac archebu ar-lein. Barnai'r Aelodau ei bod yn ddefnyddiol bod y Grŵp wedi cymryd golwg fanwl ar y sefyllfa, a diolchwyd iddynt am eu gwaith. Awgrymwyd bod y Grŵp yn edrych nesaf ar Gastell Henllys oedd, ym marn yr Aelodau, angen cynllun wedi'i dargedu i gynyddu nifer yr ymwelwyr a'r hyn yr oeddent yn ei wario gan



fod y ffigurau a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn siomedig yn hyn o beth. Eglurodd y swyddogion bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill yn wynebu materion tebyg, a chynhaliwyd cyfarfodydd yn rheolaidd rhwng swyddogion lle roedd y dulliau gweithredu yn cael eu trafod.

Pwysleisiodd yr Aelodau eraill, fodd bynnag, bod angen cynnal proffil y Parc Cenedlaethol yn y lleoliadau hyn a lleoliadau eraill, a hyrwyddo gwaith y Parc. Wrth ystyried opsiynau eraill ar gyfer darparu gwybodaeth, awgrymwyd y gellid defnyddio ciosg ffôn diangen neu 'siediau' gwybodaeth ym meysydd parcio yr Awdurdod y gellid eu staffio yn ystod y tymor brig. Hefyd roedd angen i'r Awdurdod gofleidio cyfleoedd sy'n codi drwy ddefnyddio Wi-fi canol tref a allai ganiatáu i negeseuon gael eu hanfon i ffonau symudol yn hysbysebu digwyddiadau yn y cyffiniau, megis digwyddiadau ar y traeth y diwrnod hwnnw.

Gan droi'n benodol at Ganolfan Dinbych-y-pysgod, nododd yr Aelodau bod hwn yn adeilad mawr, a bernid nad oedd digon o ddefnydd yn cael ei wneud ohono. Cwestiynwyd y ffigurau o setlo'r brydles a'r trethi o ystyried bod setlo'r trethi yn gynnwys neu isosod yr adeilad yn debygol, ac felly byddai'r costau hyn yn is gan wneud yr arbedion yn fwy. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai canlyniadau anuniongyrchol eraill o gau'r adeilad megis yr anfantais na fyddai staff megis y Swyddog Cadwraeth Adeiladau yn gallu gweithio o'r swyddfa mwyach.

Nododd Aelod arall bod y sefyllfa yn Nhrefdraeth ychydig yn wahanol oherwydd math gwahanol o ymwelwyr a derbyniad ffonau symudol heb fod cystal. Hefyd bernid bod mwy o bosibiliadau cynnwys y gymuned yn y gwaith o ddarparu gwybodaeth yn y dyfodol.

O ystyried yr argymhelliad, gofynnodd un Aelod beth fyddai'r ymgynghoriad yn ei olygu. Eglurodd y Cyfarwyddwr mai'r argymhelliad oedd bod y bwriad i gau'r ddwy ganolfan yn cael ei gymeradwyo. Roedd am i'r Awdurdod fod yn onest gyda'r gymuned ond i gymryd rhan mewn sgwrs fanwl er mwyn deall effaith yr hyn y byddai'n ei olygu, pa waith oedd ei angen i liniaru effaith y cau, ac ai'r mentrau a awgrymir ar gyfer cyflwyno gwybodaeth oedd y rhai cywir. Dywedodd nad oedd cau'r canolfannau yn rheidrwydd ariannol ar hyn o bryd, a bod cyfle felly i gael trafodaeth briodol am y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD bod yr Awdurdod yn ymgynghori ar gynnig i newid y modd y mae gwasanaethau gwybodaeth yn cael eu darparu yn Ninbych-y-pysgod ac yn Nhrefdraeth er mwyn buddsoddi mewn pecyn o fentrau newydd sydd â'r nod o gynnal twf yr economi ymwelwyr ehangach yn Sir Benfro.



10. Amrywio Rheolau Sefydlog Contractau a Chreu Cronfa wedi'i Neilltuo ar gyfer gwneud cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer Sgiliau ar Waith Rhaglen II

Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi derbyn Grant Mynediad mewn perthynas â nifer o brosiectau penodol gan gynnwys un i wneud gwaith atgyweirio i wal gynnal y gilffordd ar Lôn Point House, Angle, a'r gyllideb ar gyfer y prosiect hwn oedd £40,000. Roedd rhoi pob contract sy'n uwch na £25,000 yn amodol ar Reoliadau Ariannol yr Awdurdod sy'n ymwneud â Chontractau Mawr. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddilyn fframwaith caffael GwerthwchiGymru, a'r ymarferiad fel arfer yn cael ei wneud gan staff y Parc Cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, oherwydd llwyth gwaith y staff ac absenoldeb salwch, roedd angen i allanoli'r gwaith caffael er mwyn defnyddio'r arian oedd ar gael yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd yr Awdurdod eisoes wedi comisiynu ymgynghorwyr peirianyddol Atkins i gynnal arolwg o gyflwr y wal a llunio rhaglen waith a'r costau. Ar gais yr Awdurdod, roedd Atkins wedi nodi y gallent ymgymryd â'r ymarferiad caffael yn ogystal â rheoli'r contract a goruchwylio'r safle os oedd angen. Byddai gofyn i gost y gwaith ychwanegol hwn fod yn unol â Safonau Ariannol yr Awdurdod.

Ail elfen yr adroddiad oedd ceisio creu Cronfa wrth gefn wedi'i neilltuo i ddarparu £15,000 fel arian cyfatebol tuag at wneud cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer Sgiliau ar Waith rhaglen II. Byddai'r rhaglen hon yn cael ei chyflawni drwy raglen hyfforddiant sy'n cyfuno Diploma Lefel 2 mewn Cadwraeth Amgylcheddol Seiliedig ar Waith, tystysgrifau sgiliau ymarferol, cyrsiau byr diddordeb unigol ac ystod o brofiadau gwaith ochr yn ochr â staff proffesiynol profiadol. Byddai'n creu cyfleoedd ar gyfer hyd at 24 o swyddi dan hyfforddiant dros 2 flynedd. Dywedwyd y byddai'r cyllid yn dod o'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn £702k.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod adolygiad cyflym o'r 10 o gyfranogwyr yn y gorffennol yn y prosiect gwreiddiol, yn dangos bod 1 yn hunangyflogedig, bod 1 mewn addysg uwch a bod 8 wedi cael gwaith yn y maes amgylcheddol. Roedd hyn yn llwyddiant mawr.

PENDERFYNWYD:

- a) bod Atkins yn cael ei awdurdodi i gynnal yr ymarferiad caffael fel y nodwyd yn yr adroddiad er mwyn hwyluso'r gwaith atgyweirio ar wal gynnal y gilffordd yn y flwyddyn ariannol 2016-17.
- b) cymeradwyo creu cronfa wrth gefn o £15,000 wedi'i neilltuo i lunio cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer y cam nesaf yn y rhaglen Sgiliau ar Waith.



11. Adroddiad Blynyddol Cronfa Datblygu Cynaliadwy 2015-16

Dywedwyd bod Cronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (CDC) yn rhoi cymorth i brosiectau cynaliadwy arloesol oedd yn dangos atebion ymarferol ar gyfer ffordd mwy cynaliadwy o fyw. Roedd grantiau bach o llai na £1500 yn cael eu talu drwy'r Grant Bach Gwyrdd a weinyddwyd gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro. Roedd Adroddiad Blynyddol y Gronfa yn rhoi gwybodaeth am y camau a gymerwyd gan y Gronfa yn ystod y cyfnod o Ebrill 2015 i Fawrth 2016 ac wedi'i ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a phartïon eraill oedd â budd; roedd copi ynghlwm ar gyfer pob Aelod.

Roedd cyfanswm o £92,801 wedi'i dalu i gynnal 17 o brosiectau (gan gynnwys 8 Grant Bach Gwyrdd). Hefyd roedd yr adroddiad yn nodi sut oedd pob prosiect wedi cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy mewn meysydd gwaith allweddol a glustnodwyd, yn cyfrannu tuag at gyflawni nodau Llesiant Llywodraeth Cymru, ac yn cyflawni amcanion y cynllun Cronfa Datblygu Cynaliadwy.

Cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid at y cais mewn cyfarfod blaenorol am adroddiad ar brosiectau a ariannwyd gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy dros y pymtheg mlynedd diwethaf, a rhagwelwyd y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod fis Tachwedd.

NODWYD.

12. Ardal Gadwraeth Solfach - Cadarnhad o Gyfarwyddyd Erthygl 4(2)

Yn absenoldeb y Swyddog Cadwraeth Adeiladau, atgoffodd y Cyfarwyddwr Cynllunio yr Aelodau bod yr Awdurdod wedi penderfynu fis Mehefin i wneud Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) ar gyfer Ardal Gadwraeth Solfach. Er mwyn gwarchod cymeriad yr ardal, roedd y Cyfarwyddyd yn tynnu'n ôl rhai hawliau datblygu a ganiateir gan gynnwys newidiadau i ddrwsau, ffenestri, waliau terfyn a lloriau caled ar gyfer tai sy'n wynebu'r ffordd fawr neu fannau cyhoeddus.

Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, nid oedd unrhyw ymateb wedi dod i law hyd yn hyn. Yn dilyn cyflwyniad i Gyngor Cymuned Solfach, roeddent o blaid y Cyfarwyddyd.

PENDERFYNWYD cadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) mewn perthynas â'r tir o fewn Ardal Gadwraeth Solfach fel yr amlygwyd ar y map yn yr adroddiad, a bod y Cyfarwyddyd ffurfiol yn cael ei nodi.

13. Porthstinian/St Justinians – Rheoli Cyfleusterau Ymwelwyr yn y Dyfodol

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu, wrth drafod y cais cynllunio am barhau â'r trefniant parcio dros dro ar Faes Gwersylla



Rhoson, Porthstinian fis Rhagfyr 2015, wedi cyfarwyddo'r swyddogion i wneud eu gorau glas i geisio dod â'r rhanddeiliaid ynghyd i ddatrys y sefyllfa bresennol o ran y busnesau cychod oedd yn defnyddio hen lithrfa'r bad achub ym Mhorthstinian ar gyfer cychod cludo ymwelwyr, oedd yn ei dro yn cael effaith ar yr angen am gael cludiant addas ar gyfer ymwelwyr i'r penrhyn.

Roedd Fforwm Arfordir Sir Benfro wedi'i gyflogi i gynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a thrafodaethau dros nifer o fisoedd i hwyluso trafodaeth ymhlith y partïon oedd â budd ym Mhorthstinian ar y ffordd orau o reoli'r mynediad, y cyfleusterau a'r ardal yn y dyfodol.

Roedd adroddiad y Fforwm bellach wedi'i gyhoeddi. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ateb go iawn na ffordd ymlaen wedi'u cynnig. Dywedodd y Cyfarwyddwr nad oedd y problemau a glustnodwyd yn ymwneud yn unig â pharcio ceir - roedd hyn mewn gwirionedd yn fater eilaidd, a bod angen datrys y materion perchnogaeth tir yn gyntaf, a bod sawl chwaraewr pwysig yn hanfodol i unrhyw benderfyniad. Roedd yr adroddiad ar gael i'r Aelodau, a gofynnwyd am eu barn.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod yn ei rôl reoleiddiol o ran cynllunio, yn gyfyngedig o ran yr hyn y gallai ei wneud. Fodd bynnag, gallai gymryd rhywfaint o reolaeth dros y pwynt mynediad petai'n dod yn rhan o bartneriaeth oedd yn cymryd rôl fwy rhagweithiol.

Roedd yr Aelodau'n awyddus i ymchwilio i'r posibilrwydd o gymryd rôl fwy rhagweithiol, ond byddai'n rhaid i'r rôl fod yn ariannol hyfyw. Gofynnwyd am i adroddiad gael ei baratoi yn nodi pa opsiynau oedd gan yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD diolch i Fforwm Arfordir Sir Benfro am gadeirio'r cyfarfodydd rhanddeiliaid ac am yr adroddiad llawn, a gofyn i'r swyddogion ymchwilio i'r opsiynau o ddod o hyd i ateb i'r problemau parhaus ym Mhorthstinian a chyflwyno adroddiad gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

14. Tystysgrif Cydymffurfiaeth ar gyfer yr Archwiliad o Gynllun Gwella Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2016-17

Roedd yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru o dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i farnu a oedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliannau ac wedi bodloni gofynion y Mesur. Roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ddiweddar wedi rhoi ei farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau, ac roedd copi o'i lythyr Asesiad Gwella ynghlwm wrth yr adroddiad.



PENDERFYNWYD derbyn y llythyr Asesiad Gwella.

15. Swyddfa Archwilio Cymru - Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

Roedd yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru, o dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, roi gwybod am y gwaith archwilio ac asesu a wnaed i weld a oedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur. Roedd yr Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16 wedi dod i law oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol a'i ddsbarthu i'r Aelodau.

Aeth y Prif Weithredwr rhagddo i esbonio bod yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn ymwneud â gwaith yr Awdurdod yn ystod 2014/15. Roedd yr argymhellion manwl wedi'u nodi yn yr adroddiad, a dywedodd y Prif Weithredwr, er bod yr Awdurdod yn dal i weithio ar rai o'r materion hyn a godwyd ar y pryd, oherwydd yr oedi cyn derbyn yr adroddiad, mai anodd iawn oedd gweithredu ar yr argymhellion ffurfiol, ac nad oedd hyn yn foddhaol.

Barnai'r Aelodau nad oedd nifer o'r pwyntiau a godwyd yn gyfan gwbl o fewn cylch gwaith yr Awdurdod, megis y gostyngiad yn y niferoedd oedd yn defnyddio gwasanaethau bysiau yr arfordir, ond gofynnwyd am sicrwydd na fyddai lefelau'r cyllid yn cael eu gostwng ymhellach. Hefyd roedd anghytuno â'r awgrym y dylai'r gwasanaeth cynllunio gael ei ddefnyddio fel dull o greu refeniw yn hytrach na darparu gwasanaeth cynllunio o safon a chost effeithiol. Atebodd y swyddogion mai'r rheswm dros y gostyngiad yn y niferoedd oedd yn defnyddio bysiau'r arfordir oedd bod cwmni preifat yn rhedeg gwasanaeth Parcio a Theithio yn Ninbych-y-pysgod. Fodd bynnag, nodwyd y byddai cyflwyniad ar waith Partneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro yn cael ei wneud yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod. O ran creu incwm mewn cynllunio, eglurodd y Cyfarwyddwr Cynllunio bod yr argymhelliad hwn yn ymwneud â chyflwyno codi tâl am gyngor cyn-ymgeisio oedd wedi'i gychwyn ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog cyn y cynllun a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016 pan oedd yr Awdurdod hwn wedi dechrau codi tâl.

Aeth y Prif Weithredwr rhagddo i egluro bod angen persbectif tymor hir yn dilyn cyhoeddi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac roedd y swyddogion felly wedi bod yn gweithio gydag Archwilio i ganfod ffordd wahanol o archwilio. Awgrymwyd petai'r trefniadau cywir yn eu lle, y byddai'r Awdurdod yn cyflawni yn briodol, ac roedd rhaglen pedair blynedd wedi'i datblygu felly pan fyddai Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal cyfres o adolygiadau llywodraethu; y cyntaf o'r rhain fyddai edrych ar y diwylliant llywodraethu. Byddai hyn yn golygu gwneud arolwg cyfrinachol o farn yr Aelodau, y staff a'r rhanddeiliaid gyda chwestiynau sy'n cwmpasu saith maes Cod Ymarfer Da CIPFA. Hefyd byddai grwpiau ffocws yn cael eu cynnal gydag Aelodau a staff, yn ogystal â nifer fach o



gyfweliadau strwythuredig. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'r ffi Archwilio yn parhau ar ei lefel bresennol.

NODWYD.

[Datganodd y Cyngorydd RM Lewis fuddiant yn yr eitem ganlynol a gadawodd y cyfarfod adeg ystyried yr eitem.]

16. Ironman Cymru

Dywedodd y Prif Weithredwr bod Ironman wedi bod yn rhan o'r calendr lleol ers 2011 a bod Cyngor Sir Penfro ar hyn o bryd mewn trafodaethau i gynnal y digwyddiad yn Sir Benfro am 5 mlynedd arall, tan y flwyddyn 2021. Roedd yr Awdurdod wedi bod yn rhan o'r pecyn ariannu gwreiddiol. Fodd bynnag, nid oedd angen i'r Awdurdod gymeradwyo'r ariannu hwn dros y blynyddoedd gan fod y swm yn llai na £10,000. Gofynnwyd i'r Awdurdod yn awr i gynyddu ei gyfraniad hyd at uchafswm o £14,000. Fodd bynnag, byddai'r union swm yn dibynnu ar faint o arian a gyfrennir gan gyrff lleol eraill.

Cytunodd yr Aelodau bod Ironman yn ddigwyddiad o fri sydd wedi creu £3.5 miliwn i economi'r Sir.

PENDERFYNWYD bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr i gyfrannu hyd at £14,000 y flwyddyn tuag at Ironman dros y 5 mlynedd nesaf.

Gofynnodd y Cyngorydd ML Evans i'r ffaith ei fod wedi atal ei bleidlais gael ei chofnodi.

17. Gair o ddiolch

Diolchodd y Cadeirydd i drigolion Dale am eu croeso y diwrnod hwnnw ac yn arbennig i Grŵp Hanes y Glannau am eu harddangosfa ddiddorol ar Dale - ddoe a heddiw.

